# Adroddiad ar

# Gylch Meithrin Talgarreg

Neuadd Goffa
Talgarreg
Llandysul
Ceredigion
SA44 4XB

**Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2025**

gan

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

a

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

# Ynglŷn â Chylch Meithrin Talgarreg

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Cylch Meithrin Talgarreg |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal Dydd Llawn |
| Person(au) cofrestredig | |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | Cerys Lloyd a Karen Gardiner |
| Person â gofal | Alice Jenkins a Delyth Lloyd-Lewis |
| Nifer y lleoedd | 16 |
| Ystod oedran y plant | 2 – 4 mlwydd oed |
| Nifer y plant 3 a 4 mlwydd oed | 7 |
| Nifer y plant sy'n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar | 7 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | 8 tan 3. Dydd Llun, Mercher, Iau a Gwener. |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Oes |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydy |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae'r gwasanaeth hwn yn rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | Hydref 2022 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | Hydref 2018 |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 12/11/2025 |
| Gwybodaeth ychwanegol | |

# Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Lles** | **Da** |
| **Dysgu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Gofal a datblygiad** | **Da** |
| **Addysgu ac asesu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Yr amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Diffyg cydymffurfio

Ni chanfyddwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn.

## Argymhellion

A1. Defnyddio arsylwadau'n fwy pwrpasol er mwyn cynllunio'r camau nesaf ar gyfer pob plentyn.

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhelliad.

## Prif ganfyddiadau

### Lles: Da

Mae gan bron bob plentyn lais cryf, a gwnânt ddewisiadau a phenderfyniadau'n hyderus wrth chwarae. Maent yn symud rhwng gwahanol weithgareddau'n hyderus ac yn dilyn eu diddordebau personol yn effeithiol. Er enghraifft, yn ystod y bore, mae'r rhan fwyaf yn dewis chwarae tu allan, tra bod eraill yn chwarae ar y tractorau a'r beics yn y neuadd. Maent yn sgwrsio'n hapus gydag ymarferwyr gan wybod y byddant yn gwrando arnynt.

Mae bron bob plentyn yn cyrraedd y lleoliad yn hapus a llawn bwrlwm ac maent yn gyfforddus yng ngofal yr ymarferwyr. Maent yn ymdopi'n dda iawn wrth wahanu oddi wrth eu rhieni a'u gofalwyr. Mae bron bob plentyn yn hollol gyfarwydd â threfniadau'r diwrnod. Er enghraifft, mae'r plant yn gwybod bod angen golchi dwylo cyn amser byrbryd.

Mae bron bob plentyn yn ymddwyn yn dda iawn yn ystod cyfnodau chwarae rhydd ac yn ystod gweithgareddau grŵp. Mae llawer yn rhannu adnoddau'n dda ac yn dechrau deall sut i gymryd eu tro yn llwyddiannus, er enghraifft trwy gydweithio'n hapus tu allan, yn creu prydiau bwyd yn y gegin fwd. Mae'r rhan fwyaf yn ffurfio perthnasoedd cadarnhaol ag ymarferwyr a'u ffrindiau ac yn hapus i fynd at yr ymarferwyr i chwarae neu am gysur. Mae bron bob plentyn yn gwrtais wrth dderbyn eu snac a'u diod ac yn ymateb gyda 'diolch' i helpwr y dydd.

Mae bron bob plentyn yn mwynhau arbrofi ag amrywiaeth eang o gyfleoedd chwarae ysgogol. Maent yn mwynhau eu gweithgareddau chwarae a dysgu, ac yn chwilfrydig wrth greu tatws i swper yn y gegin, a'u wasgu'n feddal gyda'r stwnsiwr. Maent yn mwynhau symud o un weithgaredd i'r llall, ac yn dyfalbarhau a chanolbwyntio am gyfnodau estynedig. Er enghraifft, mae'r plant wrth eu bodd yn casglu dail yn y cae ac yn edrych ar y bwrdd gwybodaeth i weld pa ddail maent wedi eu darganfod, tra bod eraill yn helpu hongian yr hamog ar y coed cyn mynd i orwedd ynddo.

Mae'r plant yn cael dewis da o gyfleoedd chwarae rhydd yn y brif ystafell chwarae ac yn yr ardal allanol. Mae'r rhan fwyaf yn datblygu medrau annibyniaeth a hunangymorth da iawn, er enghraifft wrth roi siwt ac esgidiau glaw ymlaen heb gymorth, yn ogystal ag arllwys llaeth a dŵr o'r jwg i'w cwpanau. Mae 'helpwr y dydd' yn gyfrifol am baratoi a thorri ffrwyth ar gyfer pawb. Mae bron bob plentyn yn defnyddio'r tŷ bach yn hyderus, ac yn golchi a sychu eu dwylo'n annibynnol.

## Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da

Mae'r rhan fwyaf o blant, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, yn gwneud cynnydd priodol mewn ystod o fedrau o'u mannau cychwyn unigol. Mae medrau gwrando'r rhan fwyaf o blant yn gadarn, ac maent yn gwrando'n ofalus ar gyfarwyddiadau'r ymarferwyr ac yn eu dilyn yn synhwyrol, er enghraifft wrth greu cawl tomato gan ddefnyddio'r gyllell yn gywir wrth dorri'r winws a thomato. Mae'r rhan fwyaf yn gwneud cynnydd cyson dda wrth ddatblygu eu medrau cyfathrebu yn ystod eu cyfnod yn y lleoliad. Maent yn cynyddu eu geirfa'n gyson gan siarad mewn gwahanol gyd-destunau perthnasol, er enghraifft wrth drafod sut maent yn teimlo ac wrth ymateb i sut mae'r tywydd. Mae ychydig o blant yn defnyddio'r Gymraeg yn naturiol, gyda'u hiaith lafar yn adlewyrchu geirfa'r ardal. Mae hyn yn cyfrannu at ethos ieithyddol cryf y lleoliad.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn dangos dealltwriaeth gynyddol o symbolau ac yn dechrau deall pwrpas ysgrifennu. Mae'r rhan fwyaf yn adnabod eu henwau ar labeli ac yn eu defnyddio'n annibynnol wrth gofrestru ac wrth chwilio am eu mat bwrdd amser byrbryd. Mae mwyafrif y plant yn dangos diddordeb mewn llyfrau, gan wrando ar stori a thrafod cynnwys a'r cymeriadau yn briodol.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn defnyddio iaith fathemategol mewn cyd-destunau perthnasol yn llwyddiannus; er enghraifft maent yn arddangos dealltwriaeth dda o faint a'r cysyniad o fawr a bach wrth ddisgrifio'r dail. Mae'r rhan fwyaf yn arddangos dealltwriaeth dda o briodoleddau siapiau syml wrth greu cylch a sgwariau ar y bwrdd gwyn rhyngweithiol i greu llun tomato. Mae'r rhan fwyaf yn rhifo'n gadarn yn y Gymraeg gan rifo sawl plentyn sy'n bresennol a sawl bric sydd yn wal y tŷ maent yn ei adeiladu.

Mae bron bob un o'r plant yn arddangos medrau digidol cadarn. Er enghraifft, maent yn defnyddio pegiau siarad i wrando ar gyfarwyddiadau yn yr ardal adeiladu. Mae'r rhan fwyaf yn arddangos medrau datrys problemau cryf ac yn dyfalbarhau â'r dasg hyd nes iddynt ei chwblhau. Er enghraifft, maent yn cydweithio'n dda wrth palu yn y mwd nes iddynt ddarganfod trychfilod.

Mae gan y rhan fwyaf o blant fedrau corfforol cryf. Er enghraifft, maent yn dringo i fyny a llithro i lawr llithren yn hyderus a rhedeg ar hyd llwybr llithrig mwdlyd ar ôl ei gilydd. Mae medrau modur mân bron bob un o'r plant yn gryf ac maent yn arddangos medrau creadigol cadarn. Maent yn dangos mwynhad wrth ganu amrywiaeth o ganeuon ac yn gwneud dewisiadau effeithiol am beth i'w ddefnyddio i ddatblygu eu gwaith celf. Mae medrau personol, cymdeithasol ac emosiynol y rhan fwyaf o blant yn gryf.

## Gofal a datblygiad: Da

Mae ymarferwyr yn darparu gofal a chymorth da ar gyfer plant. Maent yn gweithredu polisïau priodol i hyrwyddo iechyd a lles y plant yn effeithiol ac yn cynnig byrbrydau a diodydd iach a maethlon, sy'n cynnwys ffrwythau ffres, llaeth a dŵr. Mae ymarferwyr yn sicrhau amser chwarae tu allan yn ddyddiol, ac yn rhannu negeseuon diogelwch gyda'r plant wrth iddynt groesi'r heol i fynd i'r cae. Mae'r ymarferwyr yn dilyn cynllun cenedlaethol cyn-ysgolion iach yn ogystal â chynllun brwsio dannedd.

Mae ymarferwyr yn adnabod y plant yn arbennig o dda ac mae ganddynt ddealltwriaeth dda o'u hanghenion a'u hoffterau. Er enghraifft, maent yn ymateb yn sensitif i blant sy'n dewis peidio â chymryd rhan mewn gweithgareddau grŵp ac yn cynnig amser allan o'r sefyllfa.

Mae ymarferwyr wedi cael hyfforddiant ar ddiogelu plant, ac maent yn hyderus iawn ar sut i weithredu petai ganddynt bryderon am blentyn. Maent yn nodi risgiau ac yn eu rheoli'n weithredol. Yn ogystal, mae ymarferwyr yn dilyn gweithdrefnau ar gyfer cofnodi damweiniau neu anafiadau yn briodol. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae ymarferwyr yn deall y polisi rheoli ymddygiad ac yn ei gweithredu fel modelau rôl da. Maent yn gwrando ar safbwyntiau'r plant ac yn ymateb yn dda iddynt ar lafar neu'n ddi-eiriau. Maent yn gyson wrth ganmol ymddygiad y plant, gan esbonio pam y maent yn cael canmoliaeth. Er enghraifft, pan mae plentyn yn tacluso, mae'r neges yn glir bob tro ac maent yn diolch i'r plant am eu cydweithrediad. Mae ymarferwyr yn rhyngweithio â'r plant yn gadarnhaol, gan ddangos cynhesrwydd a charedigrwydd. Maent yn ffurfio perthynas waith agos iawn â nhw ac maent yn sensitif i anghenion a phrofiadau plant unigol. O ganlyniad, mae plant yn dilyn cyfarwyddiadau'r ymarferwyr yn gyson.

Mae'r ymarferwyr yn hyrwyddo chwarae, dysgu a datblygiad y plant yn effeithiol iawn. Maent yn sicrhau bod y plant yn gartrefol ac yn hapus, gan drafod cyfleoedd dysgu gyda'r plant pan fydd yn briodol. Maent yn dilyn diddordebau a syniadau'r plant wrth gynllunio gweithgareddau. Mae ganddynt ddealltwriaeth o'u cyfrifoldebau ac maent yn darparu cyfleoedd addas i blant ddatblygu yn ôl eu hoedran a'u gallu. Mae'r ymarferwyr yn cydweithio'n agos â rhieni pan mae plant newydd yn cychwyn, gan sicrhau eu bod yn ymwybodol o anghenion a hoffterau unigol y plant. Mae prosesau effeithiol yn sicrhau bod ymarferwyr yn adnabod a chefnogi'r holl blant yn llwyddiannus, gan gynnwys y rheini sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

## Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da

Mae'r ymarferwyr, trwy wrando'n llwyddiannus ar lais y plant, yn llwyddo i gynllunio profiadau dysgu i hybu diddordeb bron bob plentyn. Mae ganddynt ddealltwriaeth effeithiol o ddatblygiad plant a'r ffordd mae plant yn dysgu trwy chwarae ac arbrofi. Maent yn rhoi cyfleoedd buddiol i'r plant gymryd risgiau addas, er enghraifft drwy redeg mewn esgidiau glaw ar hyd llwybr mwdlyd a defnyddio cyllell i dorri llysiau a ffrwythau o dan oruchwyliaeth ofalus yr ymarferwyr.

Mae profiadau dysgu ysgogol yn annog plant i ddatblygu'n archwilwyr hyderus yn eu hamgylchedd, er enghraifft trwy balu am drychfilod yn y pridd ac arsylwi ar faint a siâp y dail yn yr awyr agored. Mae'r profiadau hyn yn cryfhau dealltwriaeth plant o'r byd o'u cwmpas a phwysigrwydd trin popeth byw â gofal a pharch.

Mae'r ymarferwyr yn modelu iaith yn raenus a chyson ac yn canu rhigymau a hwiangerddi cyfarwydd. Mae'r mewnbwn rheolaidd hwn yn cyfrannu'n effeithiol at sicrhau bod y plant yn datblygu eu medrau Cymraeg yn gynyddol. Mae ymarferwyr yn holi'n fedrus ac yn bwydo iaith o safon uchel wrth drafod gyda'r plant. Er enghraifft, maent yn defnyddio geirfa hanner a chwarter wrth ddisgrifio plentyn yn defnyddio cadwyn lif i dorri blociau pren. Mae'r ymarferwyr yn darparu ystod o gyfleoedd buddiol i'r plant ddechrau creu marciau ac i ddatblygu eu medrau ysgrifennu cynnar. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau rhifedd y plant yn gryf. Er enghraifft, caiff y plant gyfleoedd buddiol i fesur hyd mwydod a thrafod sawl bachgen a sawl merch sy'n bresennol heddiw. Mae ymarferwyr yn darparu amrywiaeth eang o adnoddau sy'n datblygu medrau digidol y plant yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn recordio cyfarwyddiadau ar begiau siarad sy'n galluogi'r plant i ddilyn a deall cyfarwyddiadau syml yn annibynnol.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer medrau corfforol yn gadarn. Mae ymarferwyr yn darparu cynnig amrediad o adnoddau pwrpasol sy'n caniatáu i'r plant ddatblygu medrau cydbwyso corfforol. O ganlyniad, maent wrth eu bodd yn defnyddio'r beiciau cydbwyso a'r tractorau ac yn mwynhau cerdded ar hyd y bont gadwyn. Mae ymarferwyr yn darparu amrywiaeth o gyfleoedd effeithiol i'r plant ddatblygu eu medrau creadigol, er enghraifft wrth ddefnyddio amrywiaeth o greonau a phaent o wahanol liwiau Mae ymarferwyr yn cynllunio profiadau buddiol i ddatblygu medrau ysbrydol, moesol, cymdeithasol, ac yn hyrwyddo ymwybyddiaeth y plant o ddiwylliant Cymru a'u cynefin yn llwyddiannus. Yn ogystal, maent yn darparu cyfleoedd priodol i blant ddysgu am ddathliadau a gwyliau fel Diwali.

Mae mwyafrif yr ymarferwyr yn defnyddio asesiadau ac arsylwadau yn rheolaidd i nodi'r hyn y mae'r plant wedi'i ddysgu, i osod targedau ac i ddangos cynnydd dros amser yn bwrpasol. Er hyn, nid yw ymarferwyr bob amser yn cofnodi'r dysgu yn ddigon cyson. O

ganlyniad, nid ydynt bob tro'n defnyddio'r wybodaeth yn ddigon pwrpasol i lywio'r camau nesaf ar gyfer dysgu a datblygiad y plant.

## Yr amgylchedd: Da

Mae arweinwyr yn darparu amgylchedd addas, diogel a glân ar gyfer y plant. Maent yn sicrhau bod ymarferwyr yn gweithredu rhagofalon diogelwch yn effeithiol, fel gwirio'r ardal allanol i leihau unrhyw beryglon cyn i blant ei defnyddio. Mae arweinwyr ac ymarferwyr yn cwblhau rhestr wirio risgiau ar gyfer pob ardal yn ddyddiol ac yn cwblhau asesiadau risg yn briodol. Maent yn cwblhau cofnodion dyddiol o amseroedd cyrraedd a gadael plant ac oedolion, gan gynnwys ymwelwyr. Mae arweinwyr yn cynnal driliau tân rheolaidd ac maent yn cael eu cofnodi'n fanwl.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn gynhwysol ac mae bob plentyn yn cael mynediad cyfartal i'r holl adnoddau a gweithgareddau amrywiol. Mae'r amgylchedd yn caniatáu i blant ddefnyddio'r toiledau a defnyddio'r basnau golchi dwylo yn annibynnol. Mae arweinwyr yn dilyn trefniadau cyson ynglŷn â diogelwch yr amgylchedd ac mae trefniadau glanhau rheolaidd ar waith, sy'n adlewyrchu arferion hylendid da. Mae eu harferion rheoli heintiau cadarn yn lleihau risgiau i iechyd a diogelwch plant.

Mae arweinwyr wedi creu prif ystafell groesawgar a chyfeillgar, ac maent yn cynnig amgylchedd effeithiol ar gyfer chwarae a dysgu. Yn ogystal, mae ganddynt ddefnydd o'r gegin fawr ar gyfer bwyta a choginio a neuadd fawr ar gyfer gweithgareddau corfforol. Mae arweinwyr yn gwneud defnydd da o'r ystafelloedd hyn a'r ardal allanol i ddarparu ardaloedd dysgu cyffrous ble mae'r plant yn medru eu defnyddio yn annibynnol. Er enghraifft, mae'r ardal adeiladu yn hyrwyddo profiadau dysgu'r plant trwy gynnig adnoddau naturiol ynghyd â blociau adeiladu, fel cregyn a cherrig, sydd wedi eu lleoli ar lefel isel. Mae arddangosfeydd ar y waliau yn cynnwys gwaith y plant, a lluniau ohonynt yn ystod eu chwarae o fewn y lleoliad ac yn y gymuned gyfagos. Mae arweinwyr ac ymarferwyr yn sicrhau bod y plant yn cael cyfle i ddefnyddio'r gofod chwarae yn yr awyr agored sydd wrth ochr yr adeilad, yn ogystal â chae'r ysgol gyfagos sy'n ardal gyffrous ac eang.

Mae arweinwyr yn sicrhau y gall y plant gael mynediad at amrywiaeth eang o ddodrefn, teganau ac offer sy'n briodol o ran eu hoedran ac o ansawdd da. Er enghraifft, mae basgedi a silffoedd agored i'r plant ymchwilio a llawer o ddodrefn naturiol ac o'r cartref ar gael. Mae'r arweinwyr yn darparu adnoddau sy'n annog chwilfrydedd am y gymdeithas ehangach ac mae adnoddau i hybu gwerthoedd aml-ddiwylliannol ymysg y plant.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da

Mae gan arweinwyr ddisgwyliadau uchel o'r plant a'r ymarferwyr ac maent yn rhannu eu gweledigaeth yn glir gyda'r holl randdeiliaid. Mae'r arweinwyr wedi llwyddo i greu

awyrgylch gofalgar a chartrefol Gymreig, lle mae ymarferwyr a phlant yn cael eu parchu. Maent wedi llwyddo i greu tîm sy'n cydweithio'n effeithiol er mwyn cynnig cyfleoedd buddiol i'r plant. Mae'r pwyllgor yn gweithio'n gyson er mwyn cefnogi'r ymarferwyr i gyrraedd safonau uchel. Mae'r gefnogaeth yn sicrhau gwelliannau parhaus ac yn cael effaith bositif ar hyder yr ymarferwyr wrth gyflawni eu dyletswyddau.

Mae arweinwyr yn gweithredu systemau recriwtio diogel ac mae ganddynt drefniadau effeithiol i werthuso perfformiad ymarferwyr. Mae trefniadau goruchwyliaeth wedi eu sefydlu'n gadarn. Mae hyn yn sicrhau bod ymarferwyr yn cael cyfle i drafod anghenion hyfforddi unigol yn ôl eu blaenoriaethau personol ac anghenion datblygiad y ddarpariaeth. Ni nodwyd unrhyw achos o dorri rheoliadau na safonau gofynnol cenedlaethol yn ystod yr arolygiad. Mae arweinwyr yn sicrhau bod yr ymarferwyr yn deall ac yn cyflawni eu rolau yn fedrus a thrwyadl. Maent yn defnyddio cryfderau a diddordebau'r ymarferwyr yn llwyddiannus er lles y plant. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar yr ymdeimlad cartrefol Cymreig sydd yn y lleoliad, a'u gallu i roi'r profiadau gorau i blant.

Mae gweithdrefnau hunanwerthuso'r lleoliad yn canolbwyntio'n effeithiol ar amrediad eang o dystiolaeth a mewnbwn oddi wrth yr holl randdeiliaid. Mae arweinwyr yn adnabod cryfderau a meysydd i'w gwella yn briodol ac yn cydweithio â'r staff er mwyn gwneud gwelliannau i'r ddarpariaeth. Mae arweinwyr yn rhannu'r camau gweithredu yn synhwyrol gydag ymarferwyr, gan ystyried y dulliau mwyaf effeithiol o gyflawni eu blaenoriaethau. Mae arweinwyr yn blaenoriaethu gwariant yn synhwyrol gan ystyried anghenion y plant wrth wneud penderfyniadau.

Mae gan yr arweinwyr ac ymarferwyr berthynas gref â rhieni a gofalwyr. Maent yn cyfathrebu'n effeithiol â nhw er lles a datblygiad y plant. Mae arweinwyr ac ymarferwyr yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol mewn modd effeithiol i hysbysu rhieni a gofalwyr o ddigwyddiadau a datblygiadau perthnasol. Maent hefyd yn rhannu dyddiadur dyddiol gyda'r rhieni sy'n nodi beth mae'r plant wedi cyflawni yn ystod y dydd. Mae hyn yn sicrhau bod rhieni yn derbyn gwybodaeth gyfredol fuddiol am gynnydd a lles eu plant.

Mae arweinwyr yn cynnal cysylltiadau cryf â'r ysgol leol. Mae'r plant yn cael cyfleoedd buddiol i ymweld yn rheolaidd i gymryd rhan mewn gweithgareddau fel sesiynau canu, ac i fwynhau straeon. Mae ymarferwyr yn gwneud defnydd buddiol o gae'r ysgol i ddatblygu medrau'r plant ymhellach. Mae arweinwyr yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i blant ymweld â'r gymuned leol ac yn trefnu ymwelwyr i drafod eu gwaith gyda'r plant. Er enghraifft, maent yn trefnu cyngerdd Nadolig yn flynyddol ac yn cymryd rhan yn yr eisteddfod leol. Mae'r lleoliad yn rhan annatod o'r ardal ac yn derbyn rhoddion hael oddi wrth y trigolion lleol er budd y plant. Mae'r arweinwyr yn gweithio'n agos gyda swyddogion cefnogi'r awdurdod lleol i gynnal a datblygu ansawdd y ddarpariaeth.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 19/01/2026